

PRIFFYRDD, CYMRU

2009 Rhif

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (Y TU CEFN I ST ANDREW'S ROAD, Y FELIN WYLLT, PEN-Y-BONT AR OGWR) 200-

Gwnaed 2009

Yn dod i rym 2009

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1990") a phob pŵer galluogi arall (2).

1. Yn y Gorchymyn hwn: -

ystyr "y Cyngor" (*the Council*) yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr;

ystyr "y datblygwr" (*the developer*) yw'r person sy'n gwneud y gwaith datblygu y mae'r caniatâd cynllunio y cyfeirir ato isod wedi'i roi ar ei gyfer;

ystyr "y plan a adneuwyd" (*the deposited plan*) yw'r plan sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Y Tu Cefn i St Andrew's Road, Y Felin Wyllt, Pen-y-bont ar Ogwr) 2009" sydd gyda'r Gorchymyn hwn.

2. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 o'r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau sebra ar y map a adneuwyd, gan ei fod yn fodlon bod angen cau'r rhan honno i alluogi'r gwaith datblygu a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn i gael ei wneud.

3. Ni chaniateir cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn hyd nes y bydd:

- (a) y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos drwy ba fodd y mae'r darn o briffordd i'w gau;

- (b) y gwaith datblygu y cyfeirir ato yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi cychwyn a bod y datblygwr wedi ysgrifennu at y Cyngor i'w hysbysu o'r rheidrwydd i cau'r rhan o briffordd er mwyn caniatáu i'r gwaith datblygu fynd rhagddo; ac
- (c) y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod darpariaethau (a) a (b) o'r erthygl hon wedi'u bodloni.

4. Os bydd, yn union cyn cau'r rhan o briffordd yn unol â'r Gorchymyn hwn, unrhyw gyfarpar ymgymerwyr statudol neu ddarparwyr cyfathrebu cyhoeddus o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws, yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau o hyd o ran y cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r rhan honno.

5. Os na fydd y gwaith datblygu y cyfeirir ato yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi'i ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel hyd y caniatâd cynllunio, neu os caiff y caniatâd ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd effaith y Gorchymyn hwn yn peidio pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

6. Daw'r Gorchymyn hwn yn weithredol ar y dyddiad y cyhoeddir gyntaf yr hysbysiad ei fod wedi'i wneud yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Y Tu Cefn i St Andrew's Road, Y Felin Wyllt, Pen-y-bont ar Ogwr) 2009.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

2009

J COLLINS

Dirprwy Gyfarwyddwr Cynllunio a Llywodraethu
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cynulliad Cymru

(1) 1990 p.8.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, Erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru Act 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

(Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn y Tu Ôl i St Andrew's Road, Y Felin Wyllt, Pen-y-bont ar Ogwr.

Rhan hirsgwar o briffordd, y tu cefn i 10 St Andrew's Road, Y Felin Wyllt, Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n 6.7 metr ei hyd a 2.7 metr ei lled, a'i arwynebedd cyfan yn 18.09 o fetrau sgwâr, ac a ddangosir â llinellau sebra ar y map a adnewyd. Mae'r rhan sydd i'w chau yn St David's Close, ffordd bengaead y tu cefn i St Andrew's Road.

ATODLEN 2

Y Gwaith Datblygu Arfaethedig

Dymchwel y mur terfyn cefn presennol a'i ailadeiladu i gynnwys man glaswelltog 6.7 metr ei hyd a 2.7 metr ei led er mwyn darparu man chwarae diogel yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 24 Chwefror 2009 o dan gyfeirnod P/08/976/FUL.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (Y TU CEFN I ST ANDREW'S ROAD, Y FELIN WYLLT, PEN-Y-BONT AR OGWR) 200-

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn.

Os gwneir y Gorchymyn, nid awdurdodir cau'r rhan honno ond er mwyn galluogi'r gwaith datblygu a ddisgrifir yn Atodlen 2 o'r Hysbysiad hwn i gael ei wneud. Bydd effaith y Gorchymyn yn peidio os daw'r caniatâd cynllunio i ben neu os caiff ei ddirymu.

Yn ystod yr 28 o ddiwrnodau o 09 Gorffennaf 2009, gellir archwilio copïau o'r Gorchymyn a'r map a adnewyd yn rhad ac am ddim yn adeilad Pwll Nofio a Chanolfan Ffitrwydd Ynysawdre, Heol yr Ysgol, Ynysawdre o 7:30 am i 10:00 pm neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod drwy ddyfynnu cyfeirnod Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef CZ510-5-11-qA781831.

O fewn y cyfnod uchod o 28 o ddiwrnodau, caiff unrhyw berson, drwy hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru, Yr Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth, Y Gangen Orchmynion, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (gan ddyfynnu'r cyfeirnod CZ510-5-11-qA781831), wrthwynebu gwneud y Gorchymyn. Pe byddech yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd arnom angen ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill, bydd yr wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol yn cael eu trosglwyddo i'r ceisydd/i'r datblygwr ac yn achlysurol i'r awdurdod priffyrdd lleol i'w galluogi i ymateb i chi. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datguddio'ch manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol i'n galluogi i ymdrin â'r materion yr ydych chi wedi eu dwyn i'n sylw. Pan fo Gorchymyn Cau yn dod yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus (YC), bydd pob gohebiaeth yn cael ei chopio i Arolygydd yr Ymchwiliad ac fe'i cedwir yn Llyfrgell yr YC lle y bydd ar gael i'r cyhoedd.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.cymru.gov.uk

(dewiser Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/ Deddfwriaeth ddrafft/ Offerynnau Anstatudol Drafft/ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref: Gorchmynion Cau).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Yr Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth, Y Gangen Orchmynion, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

M D BURNELL

Yr Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth
Llywodraeth Cynulliad Cymru

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

(Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn y Tu Ôl i St Andrew's Road, Y Felin Wyllt, Pen-y-bont ar Ogwr.

Rhan hirsgwar o briffordd, y tu cefn i 10 St Andrew's Road, Y Felin Wyllt, Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n 6.7 metr ei hyd a 2.7 metr ei lled, a'i arwynebedd cyfan yn

18.09 o fetrau sgwâr, ac a ddangosir â llinellau sebra ar y map a adnewwyd. Mae'r rhan sydd i'w chau yn St David's Close, ffordd bengaead y tu cefn i St Andrew's Road.

ATODLEN 2

Y Gwaith Datblygu Arfaethedig

Dymchwel y mur terfyn cefn presennol a'i ailadeiladu i gynnwys man glaswelltog 6.7 metr ei hyd a 2.7 metr ei led er mwyn darparu man chwarae diogel yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 24 Chwefror 2009 o dan gyfeirnod P/08/976/FUL.